


Gweithdrefn Ymddygiad Annerbyniol gan Ddysgwyr

Author: Cath Hicks
Date: 08.06.19
Version: 1



1.0 CYFLWYNIAD

Mae Addysg Oedolion Cymru wedi ymrwymo i sicrhau cyfleoedd dysgu o'r safonau gorau posibl ar gyfer ein holl ddysgwyr. O'r herwydd, mae gan y sefydliad ddisgwyliadau penodol ynglŷn â'ch ymddygiad fel dysgwr.

Mae'n bwysig fod dysgwyr yn gwybod beth mae'r sefydliad yn ei ystyried yn ymddygiad annerbyniol, a beth sy'n digwydd pan fydd rhywun yn ymddwyn mewn ffordd annerbyniol. Mae ein disgwyliadau o'n dysgwyr wedi'u nodi yn y Cytundeb Dysgu a'r Cod Ymddygiad Dysgwyr. Ochr yn ochr â hyn, gallai fod cytundebau lleol hefyd sy'n ymwneud â dosbarthiadau neu leoliadau penodol, e.e. lle mae rheolau iechyd a diogelwch arbennig neu reolau eraill yn berthnasol. Gall eich tiwtor gytuno ar "reolau sylfaenol" gyda'ch dosbarth ar ddechrau'ch cwrs.

Pan fydd ymddygiad annerbyniol wedi digwydd, neu mae amheuaeth ei fod wedi digwydd, rhaid defnyddio dull cyson a theg wrth ymdrin â'r materion hyn. Mae'r weithdrefn hon yn esbonio sut bydd y sefydliad yn ymdrin â sefyllfaoedd neu honiadau ynglŷn ag ymddygiad annerbyniol.

2.0 Y WEITHDREFN

Mae'r weithdrefn hon yn cydnabod bod gwahaniaeth rhwng mân achosion o dorri safonau ymddygiad a chamymddygiad difrifol. Mae'r weithdrefn hon wedi'i chynllunio i ymdrin ag ymddygiad yn y ddau gategori hyn.

Nid oes modd rhestru'r holl ymddygiadau yr ystyrir eu bod yn annerbyniol. Gellir defnyddio'r rhestr ganlynol fel canllaw yn unig, gan y bydd angen ystyried pob achos yn unigol. Wrth ymdrin ag ymddygiad annerbyniol, bydd y sefydliad yn ystyried i ba raddau y cafodd safonau eu torri, hanes dysgu'r dysgwr gyda ni ac unrhyw amgylchiadau arbennig a all fod yn berthnasol i'r sefyllfa.

Mae enghreifftiau o ymddygiad sy'n cael eu hystyried yn annerbyniol gan Addysg Oedolion Cymru fel a ganlyn:

- Dwyn neu geisio dwyn o eiddo'r sefydliad, neu eiddo'n perthyn i diwtoriaid neu ddysgwyr eraill,
- Ymosod, gan gynnwys unrhyw ymddygiad bygythiol neu frawychus,
- Ymosodiad rhywiol neu weithred(oedd) anweddus neu aflonyddu rhywiol wedi'i gyfeirio at staff neu ddysgwyr eraill,
- Ymddygiad annerbyniol yn ymwneud ag Atal, radicaleiddio neu eithafiaeth,
- Difrod bwriadol a difrifol i eiddo,
- Defnyddio offer y sefydliad yn fwriadol i fynd ar safleoedd rhyngrwyd neu anfon neu greu negeseuon e-bost yn cynnwys deunydd pornograffig, tramgwyddus neu anllad
- Defnyddio offer y sefydliad yn fwriadol i fynd ar safleoedd rhyngrwyd neu anfon neu greu negeseuon e-bost sy'n hyrwyddo hiliaeth, trais, rhywiaeth, anoddefiad crefyddol neu homoffobia

- Bod o dan ddylanwad alcohol neu gyffuriau ar safle cwrs neu yn ystod dosbarth
- Meddu ar gyffuriau anghyfreithlon, neu reoli cyffuriau anghyfreithlon, ar safle cwrs neu yn ystod dosbarth
- Methiant bwriadol i weithredu neu gadw at y polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth
- Achos difrifol o dorri rheolau iechyd a diogelwch
- Difaterwch amlwg i bolisiau a gweithdrefnau'r Sefydliad
- Dangos anfoesgarwch eithafol neu barhaus at ddysgwyr eraill neu staff

2.1 GWEITHDREFN ANFFURFIOL

Bydd y tiwtor neu'r Rheolwr Rhanbarthol ar gyfer yr ardal fel arfer yn ymdrin yn anffurfiol â mân achosion o dorri safonau ymddygiad. Yn yr amgylchiadau hyn, bydd y dysgwr yn cael ei wneud yn ymwybodol o'r ymddygiad annerbyniol ac yn cael ei gynghori ynglŷn â'r gwelliannau neu'r newidiadau sydd eu hangen i fodloni'r safonau derbyniol, ynghyd â'r raddfa amser y dylid cyflawni hyn, os yw'n briodol. Bydd hyn yn cael ei gadarnhau i'r dysgwr yn ysgrifenedig.

Os bydd yr ymddygiad annerbyniol yn parhau, neu os bydd achosion pellach o ymddygiad annerbyniol, bydd camau'n cael eu cymryd o dan gam ffurfiol y weithdrefn.

2.2 GWEITHDREFN FFURFIOL

Ymdrinnir â chamymddygiad difrifol gan ddefnyddio'r weithdrefn ffurfiol bob amser. Gellir ymdrin ag ymddygiad annerbyniol parhaus o natur lai difrifol o dan y weithdrefn ffurfiol hefyd.

2.2.1 YMCHWILIAD

Os gwneir honiad neu gŵyn yn erbyn dysgwr neu y tynnir sylw'r tiwtor neu'r Rheolwr Rhanbarthol at sefyllfa, bydd ymchwiliad yn cael ei gynnal i sefydlu ffeithiau'r achos.

Bydd y swyddog ymchwilio yn cael ei benodi gan y Prif Weithredwr neu'r Pennaeth Gwasanaethau Dysgwyr ac Adnoddau, ac ni fydd wedi cael unrhyw gysylltiad blaenorol â'r achosion a adroddwyd. Bydd ymchwiliadau'n cael eu cynnal cyn gynted ag y bo modd, yn gwbl gyfrinachol ac mor drylwyr â'r hyn sy'n rhesymol o dan yr amgylchiadau.

Bydd y swyddog ymchwilio yn gyfrifol am gasglu'r holl wybodaeth sydd ei hangen i ystyried yr achos yn drylwyr. Mewn rhai achosion, gallai hyn ei gwneud yn ofynnol i'r dysgwr fynychu cyfarfod ymchwilio. Bydd y dysgwr yn gallu dod â chyd-ddysgwr neu ffrind gydag ef/gyda hi i'r cyfarfod, os bydd yn dymuno.

Gall fod angen i'r swyddog ymchwilio gyfarfod ag unrhyw dystion perthnasol hefyd. Gall tystion ddewis dod â chyd-ddysgwr neu ffrind gyda nhw i'r cyfarfod hefyd, os byddant yn dymuno.

Bydd y sefydliad:

- Yn rhoi gwybod i'r dysgwr dan sylw cyn gynted ag y bo modd ei fod/bod yn destun ymchwiliad, a natur yr honiadau.
- Yn atgoffa'r dysgwr am y Cytundeb Dysgu a'r Cod Ymddygiad Dysgwyr ac yn rhoi copi iddo/iddi.

Ar ddiwedd yr ymchwiliad, bydd adroddiad yn cael ei baratoi, yn amlinellu ffeithiau'r achos. Bydd yr adroddiad yn amlinellu argymhellion y swyddog ymchwilio. Os bydd yr ymchwiliad yn dod i'r casgliad nad oes unrhyw achos i'w ateb, bydd y dysgwr yn cael gwybod yn ysgrifenedig cyn gynted ag y bo modd.

Os bydd yr ymchwiliad yn dod i'r casgliad fod yna achos i'w ateb, bydd gwrandawriad disgyblu'n cael ei drefnu.

2.2.2 MYNYCHU DOSBARTHIAU YN YSTOD YMCHWILIAD

Gall fod angen gofyn i ddysgwr beidio â mynychu ei ddosbarth tra bydd ymchwiliad yn cael ei gynnal. Gellir gofyn i ddysgwr beidio â mynychu dosbarth os bydd presenoldeb y dysgwr yn rhwystro'r ymchwiliad, os oes risg ganfyddedig i bobl eraill (staff neu ddysgwyr), neu os yw'r achos yr adroddwyd amdano yn cynnwys dwyn, ymosodiad corfforol, neu bryderon yn ymwneud â materion diogelu ac Atal. Dylai unrhyw waharddiad fod mor fyr ag y bo modd, a dylid ei adolygu'n rheolaidd.

Nid yw gofyn i ddysgwr beidio â mynychu dosbarth yn golygu y bu unrhyw achos o gamymddygiad, neu fod unrhyw awgrym o euogrwydd. Mae'n weithred ddiudedd sy'n galluogi'r sefydliad i ymchwilio i'r sefyllfa mor drylwyr ac mor effeithiol ag y bo modd.

2.2.3 CYHUDDIADAU A THROSEDDAU CYFREITHIOL NEU DROSEDDOL

Gall y sefydliad gysylltu â'r heddlu ynglŷn â dysgwr os credir bod yr ymddygiad annerbyniol o bosibl yn anghyfreithlon.

Gall troseddau y tu allan i'r amgylchedd dysgu effeithio ar eich dysgu parhaus gydag Addysg Oedolion Cymru, yn dibynnu ar natur y drosedd. Bydd pob achos yn cael ei ystyried yn unigol, a bydd cyngor yn cael ei gymryd gan yr awdurdodau perthnasol.

2.2.4 GWRANDAWRIAD DISGYBLU FFURFIOL

Pan benderfynir bod achos disgyblu i'w ateb, bydd gwrandawriad disgyblu ffurfiol yn cael ei drefnu.

Bydd Addysg Oedolion Cymru:

- Yn rhoi gwybod i'r dysgwr am y gwrandawriad disgyblu yn ysgrifenedig, gan roi o leiaf 5 diwrnod gwaith o rybudd;
- Yn rhoi manylion i'r dysgwr am natur yr honiad(au), ble a phryd y cynhelir y gwrandawriad a'r canlyniadau posibl;
- Yn rhoi'r holl ddogfennau perthnasol i'r dysgwr o leiaf 3 diwrnod gwaith cyn y gwrandawriad;
- Yn rhoi gwybod i'r dysgwr y gall ddod â chyd-ddysgwr neu ffrind gydag ef/gyda hi i'r gwrandawriad, os bydd yn dymuno.

Dylai'r dysgwr wneud pob ymdrech i fynychu'r cyfarfod, fodd bynnag, gall ofyn bod dyddiad y gwrandawriad disgyblu yn cael ei aildrefnu os oes rheswm pwysig pam mae'r dyddiad gwreiddiol yn anaddas.

Dyma'r bobl fydd yn bresennol yn y gwrandawriad disgyblu:

- Y dysgwr (gyda chyd-ddysgwr neu ffrind, os bydd yn dewis dod ag un gydag ef/gyda hi),
- Dau reolwr o Addysg Oedolion Cymru, a fydd yn clywed yr achos,
- Aelod staff o Addysg Oedolion Cymru i gymryd nodiadau o'r cyfarfod.

Bydd y rheolwyr sy'n clywed yr achos yn cael eu penodi gan y Prif Weithredwr neu'r Pennaeth Gwasanaethau Dysgwyr ac Adnoddau.

Bydd y cyfarfod yn galluogi'r dysgwr a'r panel i adolygu'r wybodaeth sydd ar gael, ac egluro unrhyw bwyntiau. Bydd esboniad llawn yn cael ei roi i'r dysgwr am yr achos yn ei (h)erbyn i ymateb i'r honiadau a chyflwyno esboniad am ei (h)ymddygiad.

Yn dilyn y cyfarfod, bydd angen i'r panel disgyblu benderfynu p'un a ellir cyfiawnhau cosb ddisgyblu neu unrhyw gam arall ai peidio.

Yn dibynnu ar ba mor ddifrifol yw'r ymddygiad annerbyniol, ac ar ôl ystyried yr holl wybodaeth berthnasol, gellir:

- Rhoi gwybod i'r dysgwr na fydd unrhyw gamau pellach yn cael eu cymryd, neu
- Roi rhybudd i'r dysgwr, naill ai ar lafar neu'n ysgrifenedig, neu
- Roi gwybod i'r dysgwr ei fod yn cael ei ddiarddel o gwrs penodol neu o holl gyrsiau Addysg Oedolion Cymru, naill ai am gyfnod amser diffiniedig neu am gyfnod amhendant.

Bydd y dysgwr yn cael gwybod yn ysgrifenedig am y penderfyniad cyn gynted ag y bo modd ar ôl y gwrandawriad, ac o fewn 5 diwrnod gwaith.

Mae gan y dysgwr hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad, fel y disgrifir yn adran 3.0 isod.

3.0 HAWL I APELIO

Ym mhob achos lle cymerir camau disgyblu, bydd gan y dysgwr hawl i apelio yn erbyn camau o'r fath. Rhaid i'r dysgwr apelio yn ysgrifenedig, gan nodi'r rheswm dros ei apêl. Rhaid anfon pob apêl at y Pennaeth Gwasanaethau Dysgwyr ac Adnoddau o fewn 10 diwrnod gwaith o gael gwybod am y camau disgyblu.

Bydd y panel apeliadau yn cynnwys y Prif Weithredwr a rheolwr dynodedig nad yw wedi cael unrhyw gysylltiad â'r achos hyd yma. Bydd y dysgwr yn cael gwybod dyddiad cyfarfod y panel, a fydd fel arfer yn ymgynnull o fewn 10 diwrnod gwaith i'r cyfeiriad.

Bydd y dysgwr yn cael gwybod am benderfyniad y panel o fewn 5 diwrnod i'w gyfarfod. Mae penderfyniad y panel apeliadau yn derfynol.

4.0 CYFRINACHEDD

Mae'n ofynnol i'r holl gyfranogwyr llynu at gyfrinachedd llym wrth weithredu'r Weithdrefn Ymddygiad Annerbyniol gan Ddysgwyr.

Bydd yr holl gofnodion yn cael eu cadw'n gyfrinachol ac yn cael eu cadw yn unol â Deddf Diogelu Data 1998 a'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol.